



## Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 23 September 2024 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), Sara Keeton, and Helen Nelson

**Co-Opted Members Present** Chris Evans and Eddie Hall

**Officers Present:** Paul Beynon – RFO, Robert Hernando – Environmental Officer, and Ian Hughes – CSO.

**EN2409-01 Apologies:** None

**EN2409-02 Declarations of Interest:** None

**EN2409-03 Minutes of the previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 22nd July 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 22nd July 2024 as a true record.

**EN2409-04 Actions from previous meetings update**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created and updated actions.



### **Budget Monitoring Report to 31/07/2024 - Paul Beynon, RFO**

**EN2409-05**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to committee members, no questions relating to the budget reports had been raised either with the CSO or the RFO prior to the meeting.

The RFO highlighted key aspects of the reports which included expenses/invoices for the relevant period.

The cost of purchasing seeds and bulbs was discussed and it had previously been agreed that Ashley Haynes, the grounds person will send details of purchases required to RFO.

Planning permission for Clyne Gardens Gazebo approved by SCC.

**ACTION:** Cllr Helen Nelson and Chris Evans to seek update on Clyne Gardens Gazebo.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31 July 2024.

Cllr Helen Nelson arrived at 7.11pm

**EN2409-06**

### **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**

Summary of previous months activity and next steps for October.  
Report attached.

Prior to the Monthly Report being discussed, The Chair, Cllr Townsend Jones welcomed and introduced Robert Hernando the Environmental Officer. Robert provided a brief outline of his life and career to date.

Robert had previously provided the Monthly Report to committee members prior to the meeting. He highlighted the following key aspects

- **Jubilee Gardens**, - progress including Lottery Funding being sought, awaits SLA approval from SCC. Amendments to the original plans have been necessary, SCC would not allow a rain garden to impact on drainage onto a public road, instead drainage will need to be contained within the 'Gardens' area. A water refill facility proved to be too costly instead signage will be installed indicating facilities at Norton Nature Reserve



and Mumbles Skatepark. Robert is in the process of obtaining design quotes and the time limit for spending the budget has been extended to 27.03.2025,

- **Mumbles Buzz and Bloom** has been completed for 2024 with a report and photographs to be uploaded onto MCC Website.
- **Tree Planting**, Robert is liaising with Swansea University (Swansea Tree Society) and tree suppliers over planting new trees within MCC. A new nursery is being created in Gower which will hopefully provide free trees for planting
- Robert will be working with Ashley Haynes, the Grounds Person over signs being installed, particularly with regard to The Norton Nature Reserve and developing **Maintenance Plans**.
- Robert in early stages of consultation with Professor from Swansea University over planning of Wildlife Survey.
- **Plastic Free Mumbles**, MCC close to acquiring Community Award with only 17 community allies being required to complete the requirements.
- Other aspects of the report including Social Media and Volunteer Days covered in agenda items below

#### **EN2409-07 Budget 2025/26**

The RFO had previously set out at Full Council the importance of a budgeting timetable for the remainder of the financial year, looking ahead through planning at committees and the early submission of budget proposal forms.

A number of budget proposal forms had been received from Robert Hernando and The Chair, Cllr Townsend Jones prior to the meeting which had been circulated prior to the meeting.

The discussion on the Budget for 2025/26 was in two parts. Firstly, the RFO outlined the existing obligations and expenditures of the committee with each section being considered with a view to precise figures being presented at October's Meeting.

Secondly the four budget proposal forms provided to committee were discussed, again with further consideration being taken at October's Meeting.



**ACTION:** CSO to include Climate Emergency Action as an agenda item at October's Committee Meeting.

**ACTION:** All committee members to consider funding of budgets in order that recommendations can be made at October's Meeting

**ACTION:** All committee members to consider the budget proposal forms submitted (and where appropriate submit fresh budget proposal forms) in order that recommendations can be made at October's Meeting.

**EN2409-08**

**Promoting volunteer days**

Most issues connected to this agenda item were deferred to October Meeting with the exception that a survey should be carried out by Robert Hernando in relation to volunteer recruitment. A questionnaire prepared by Robert for the purpose of the survey had been circulated to committee members prior to the meeting

**RECOMMENDATION:** Robert Hernando to carry out a survey in relation to volunteer recruitment, using the form previously circulated.

**EN2409-09**

**Mumbles Green Heroes**

This agenda item was deferred until the October Meeting.

**EN2409-10**

**MCC Website – SA1 and Social Media**

This agenda item was deferred until the October Meeting.  
RFO, Paul Beynon left the meeting at 8.28pm

**EN2409-11**

**Litter Picking Dates for 2024/25**

Robert Hernando is arranging for a litter pick event on Sunday 3<sup>rd</sup> November 2024

Cllr Phil Keeton is arranging a litter pick/weeding event in West Cross on 20.10.2024.

**ACTION:** Both Robert Hernando and Cllr Phil Keeton to upload both litter picking events onto MCC Website once full details known.



**EN2409-12 Grant consideration for heritage themed event**  
This agenda item has previously been completed by The Clerk.

**EN2409-13 Environmental Green Fair**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined how a stand organised by MCC at the forthcoming Environmental Fair could promote Plastic Free Mumbles, Mumbles Buzz in Bloom and other relevant events. The event is due to take place on Saturday 23<sup>rd</sup> and Sunday 24<sup>th</sup> November 2024 at the National Waterfront Museum, Swansea.

**RECOMMENDATION:** that MCC provide a stall at the forthcoming Environmental Green Fair (detailed above)

**Meeting concluded at 8.31pm**

**Next Meeting 28th October 2024**



## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024 am 6.30pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-gadeirydd), Sara Keeton, a Helen Nelson

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Chris Evans ac Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Robert Hernando – Swyddog Amgylcheddol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2409-01 Ymddiheuriadau:** Dim

**EN2409-02 Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2409-03 Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**  
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

**EN2409-04 Diweddariad ar gamau gweithredu'r cyfarfodydd blaenorol**  
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cymryd, wedi iddo ddsbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a champau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddarau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr



adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chymau gweithredu sydd newydd eu creu a'u diweddarau.

**EN2409-05 Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, eisoes wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb gyda'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Amlygodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol agweddau allweddol ar yr adroddiadau, a oedd yn cynnwys treuliau/anfonebau ar gyfer y cyfnod perthnasol.

Trafodwyd y gost o brynu hadau a bylbiau a chytunwyd yn flaenorol y byddai Ashley Haynes, y tirmon, yn anfon manylion y pryniannau sydd eu hangen at y Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Caniatâd cynllunio ar gyfer Gasibo Gerddi Clun wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Helen Nelson a Chris Evans i ofyn am ddiweddariad ar Gasibo Gerddi Clun.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Helen Nelson am 7.11pm.

**EN2409-06 Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**

Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Hydref. Mae'r adroddiad wedi'i atodi.

Cyn i'r adroddiad misol gael ei drafod, croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, Robert Hernando, y Swyddog Amgylcheddol, a'i gyflwyno. Rhoddodd Robert amlinelliad byr o'i fywyd a'i yrfa hyd yma.



Roedd Robert wedi darparu'r adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Amlygodd yr agweddau allweddol canlynol:

- **Gerddi Jiwibili** – mae cynnydd, gan gynnwys ceisio arian y Loteri, yn aros am gymeradwyaeth y cytundeb lefel gwasanaeth gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae newidiadau i'r cynlluniau gwreiddiol wedi bod yn angenrheidiol. Ni fyddai Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn caniatáu i ardd law effeithio ar ddraenio i ffordd gyhoeddus ac, yn hytrach, bydd angen cynnwys draeniau o fewn ardal y 'gerddi'. Profwyd bod cyfleuster ail-lenwi dŵr yn rhy gostus ac, yn lle hynny, bydd arwyddion yn cael eu gosod yn dangos y cyfleusterau yng Ngwarchodfa Natur Norton a Pharc Sglefrio'r Mwmbwls. Mae Robert yn y broses o gael dyfynbrisiau dylunio ac mae'r terfyn amser ar gyfer gwario'r gyllideb wedi'i ymestyn i 27 Mawrth 2025.
- Mae **Su'r Mwmbwls yn ei Blodau** wedi'i gwblhau ar gyfer 2024, gydag adroddiad a ffotograffau i'w huwchlwytho i wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
- **Plannu Coed** – mae Robert yn cysylltu â Phrifysgol Abertawe (Cymdeithas Coed Abertawe) a chyflenwyr coed ynghylch plannu coed newydd o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Mae meithrinfa newydd yn cael ei chreu yng Ngŵyr, a fydd, gobeithio, yn darparu coed am ddim i'w plannu.
- Bydd Robert yn gweithio gydag Ashley Haynes, y tirmon, ynglŷn â'r arwyddion sy'n cael eu gosod, yn enwedig mewn perthynas â Gwarchodfa Natur Norton a datblygu **cynlluniau cynnal a chadw**.
- Mae Robert yn y camau cynnar o ymgynghori â'r athro o Brifysgol Abertawe ynghylch cynllunio'r Arolwg Bywyd Gwyllt.
- **Mwmbwls Di-blastig** – mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn agos at ennill Gwobr Gymunedol gyda dim ond 17 o gynghreiriaid cymunedol yn ofynnol i gwblhau'r gofynion.
- Ymdrinnir ag agweddau eraill ar yr adroddiad, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a diwrnodau gwirfoddoli, yn yr eitemau agenda isod.

### Cyllideb 2025/26

#### EN2409-07

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol eisoes wedi nodi yn y cyngor llawn bwysigrwydd amserlen gyllidebu ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, gan edrych ymlaen drwy gynllunio mewn pwyllgorau a chyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb yn gynnar.

Derbyniwyd nifer o ffurflenni cynnig cyllideb gan Robert Hernando a'r





Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, cyn y cyfarfod, a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod.

Roedd y drafodaeth ar y gyllideb ar gyfer 2025/26 mewn dwy ran. Yn gyntaf, amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol rwymedigaethau a gwariant presennol y pwyllgor, gyda phob adran yn cael ei hystyried gyda golwg ar gyflwyno ffigurau manwl gywir yng nghyfarfod mis Hydref.

Yn ail, trafodwyd y pedair ffurflen cynnig cyllideb a ddarparwyd i'r pwyllgor, gan roi ystyriaeth ymhellach eto yng nghyfarfod mis Hydref.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i gynnwys gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd fel eitem ar agenda cyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref.

**CAM GWEITHREDU:** Holl aelodau'r pwyllgor i ystyried ariannu cyllidebau er mwyn gallu gwneud argymhellion yng nghyfarfod mis Hydref.

**CAM GWEITHREDU:** Holl aelodau'r pwyllgor i ystyried y ffurflenni cynnig cyllideb a gyflwynwyd (a lle bo'n briodol cyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb newydd) er mwyn gallu gwneud argymhellion yng nghyfarfod mis Hydref.

### **Hyrwyddo diwrnodau gwirfoddoli**

**EN2409-08**

Gohiriwyd y rhan fwyaf o'r materion sy'n ymwneud â'r eitem hon ar yr agenda tan gyfarfod mis Hydref, ac eithrio y dylai Robert Hernando gynnal arolwg mewn perthynas â recriwtio gwirfoddolwyr. Roedd holiadur a baratowyd gan Robert at ddiben yr arolwg wedi'i ddsbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

**ARGYMHELLIAD:** Robert Hernando i gynnal arolwg mewn perthynas â recriwtio gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddsbarthwyd eisoes.

### **Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls**

**EN2409-09**

Gohiriwyd yr eitem hon ar yr agenda tan gyfarfod mis Hydref.

**EN2409-10**

### **Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls – SA1 a'r cyfryngau cymdeithasol**



Gohiriwyd yr eitem hon ar yr agenda tan gyfarfod mis Hydref.  
Gadawodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, y cyfarfod am 8.28pm.

### **Dyddiadau casglu sbwriel ar gyfer 2024/25**

**EN2409-11** Mae Robert Hernando yn trefnu digwyddiad codi sbwriel ddydd Sul, 3 Tachwedd 2024.

Mae'r Cynghorydd Phil Keeton yn trefnu digwyddiad codi sbwriel / chwynnu yn West Cross ar 20 Hydref 2024.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando a'r Cynghorydd Phil Keeton i lanlwytho'r ddau ddigwyddiad codi sbwriel i wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls unwaith y bydd y manylion llawn yn hysbys.

### **Ystyried grant ar gyfer digwyddiad ar thema treftadaeth**

**EN2409-12** Mae'r eitem hon ar yr agenda wedi'i chwblhau eisoes gan y Clerc.

### **Ffair Werdd Amgylcheddol**

**EN2409-13**

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, sut y gallai stondin a drefnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls yn y Ffair Amgylcheddol sydd i ddod hyrwyddo Mwmbwls Di-blastig, Su'r Mwmbwls yn ei Blodau a digwyddiadau perthnasol eraill. Mae'r digwyddiad i fod i gael ei gynnal ar ddydd Sadwrn 23 a dydd Sul 24 Tachwedd 2024 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

**ARGYMHELLIAD:** bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu stondin yn y Ffair Werdd Amgylcheddol sydd i ddod (manylion uchod).

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.31pm.**

**Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref 2024.**